Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Helen Burgum
Ysgol yr Esgob Gore
Heol De La Beche
Sgeti
SA2 9AP

06/05/2025

Annwyl Helen Burgum

**Ymweliad interim:** Ebrill 2025

Diolch am y croeso yn ystod yr ymweliad interim â'r ysgol ar yr 8fed a 9fed o Ebrill 2025. Mwynhaom y cyfle i gwrdd â chi, eich staff a'ch disgyblion, a chlywed mwy am y gwaith gwella y mae'r ysgol wedi'i wneud ers yr arolygiad craidd ym mis Ebrill 2023.

Yn ystod ein hymweliad, cawsom gyfle i:

- siarad ag uwch arweinwyr ac arweinwyr canol am eich prosesau hunanwerthuso a gwella
- trafod y cynnydd y mae'r ysgol wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â'r argymhellion ynghylch sicrhau bod addysgu'n darparu lefel uchel o her ar gyfer pob un o'r disgyblion, a mireinio hunanwerthuso fel ei fod yn canolbwyntio ar effaith camau gweithredu i nodi'n fanwl gywir unrhyw agweddau ar addysgu a dysgu sydd angen eu gwella
- siarad â disgyblion ar draws grwpiau blwyddyn 8, 9 a 10 a chlywed eu hadborth am yr ysgol
- siarad â grŵp o athrawon am eu gwaith a chlywed am eu gwaith
- cynnal cyfres o arsylwadau gwersi a gweithgareddau craffu ar waith ar y cyd ag uwch arweinwyr ac arweinwyr canol i gefnogi eich hunanwerthuso a chynllunio gwelliant
- arsylwi ystod o sesiynau addysgu a dysgu, gan gynnwys Saesneg, Cymraeg, mathemateg, gwyddoniaeth, dylunio a thechnoleg, hanes, cymdeithaseg ac addysg gorfforol.

## A1: Sicrhau bod addysgu yn darparu lefel ddigon uchel o her ar gyfer pob un o'r disgyblion

Ers yr arolygiad, mae'r uwch dîm arwain wedi darparu ffocws clir ar wella addysgu a dysgu. Mae grŵp addysgu a dysgu yn cyfrannu at ddatblygiad staff ac yn rhannu enghreifftiau o arfer dda yn briodol. Mae dysgu proffesiynol wedi'i gynllunio'n dda ac yn defnyddio partneriaid allanol, lle bo'n briodol. Dywed staff fod dysgu proffesiynol yn berthnasol ac yn cynnig cyfleoedd defnyddiol ar gyfer cydweithio. Mae'r pecyn cymorth adnoddau rhyngweithiol a'r bwletinau addysgu a dysgu wythnosol yn cynnig enghreifftiau ymarferol sy'n bwnc benodol i arwain a chefnogi athrawon. Cefnogir staff trwy fodel hyfforddi pwrpasol, hefyd. Mae athrawon yn dangos hyder cynyddol mewn defnyddio ychydig o strategaethau fel holi ar hap a dim dwylo i fyny i herio disgyblion yn briodol. O ganlyniad, mae'r camau hyn yn dechrau creu diwylliant myfyriol yn yr ysgol lle mae staff yn barod i ddatblygu eu harfer ymhellach. At ei gilydd, mae'r ysgol yn parhau i weithio i wella lefel yr her mewn gwersi. Mae hyn yn cynnwys datblygu defnydd mwy effeithiol o holi i archwilio a dyfnhau dealltwriaeth disgyblion, gwella cysondeb ac ansawdd adborth llafar ac ysgrifenedig, datblygu uwch fedrau darllen disgyblion ar draws y cwricwlwm, a darparu ymagwedd at ddysgu ag iddi ddilyniant clir ar gyfer disgyblion.

## A2: Mireinio hunanwerthuso fel ei fod yn canolbwyntio ar effaith camau gweithredu i nodi'n fanwl gywir unrhyw agweddau ar addysgu a dysgu sydd angen eu gwella

Mae'r ysgol wedi gwneud newidiadau synhwyrol i gryfhau ei phrosesau hunanwerthuso i ymateb i argymhelliad yr arolygiad. Yn rhan o hyn, caiff gweithgareddau 'Adolygu a Datblygu' ac adolygu maes cwricwlwm penodol eu cofnodi yn y calendr trwy gydol y flwyddyn yn rhan o'r cylch hunanwerthuso. Mae'r gweithgareddau hyn yn galluogi arweinwyr ar bob lefel i gasglu ystod o dystiolaeth fuddiol sy'n cysylltu'n synhwyrol â phrif flaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae arweinwyr yn cynnal ystod gynhwysfawr o weithgareddau sicrhau ansawdd priodol, gan gynnwys arsylwadau gwersi, teithiau dysgu, craffu ar waith disgyblion, gan gynnwys eu medrau, a chasglu barn disgyblion. Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn defnyddio canfyddiadau o'r gweithgareddau monitro hyn yn effeithiol i baratoi adroddiadau addas. Mae hyn yn eu galluogi i rannu arfer effeithiol neu fynd i'r afael â meysydd i'w datblygu, tra'n defnyddio'r wybodaeth i gynllunio gwaith gwella a darparu dysgu proffesiynol buddiol ar gyfer pob un o'r staff. Mae arweinwyr yn defnyddio'r prosesau hyn yn effeithiol i fynd i'r afael ag argymhellion.

Rydym yn dymuno'n dda i chi â'ch datblygiadau yn y dyfodol. Rydym yn meddwl y byddai'n fuddiol i'r ysgol ystyried:

- A yw athrawon yn meddu ar ddealltwriaeth ddigon clir o sut i sicrhau her ddigonol?
- A yw cyfleoedd dysgu proffesiynol yn canolbwyntio'n ddigon da ar ddatblygu her mewn gwersi?
- A roddir cyfleoedd ystyrlon digonol i ddisgyblion weithio'n annibynnol?
- A yw athrawon yn deall yr agweddau penodol ar ddysgu y mae angen i ddisgyblion eu gwella i ddefnyddio'r strategaethau addysgu cywir?
- Pa mor dda y mae arweinwyr yn datblygu dealltwriaeth fanwl gywir o'r agweddau penodol sydd angen eu datblygu?
- A yw uwch arweinwyr yn darparu cymorth a her addas ar gyfer arweinwyr canol i werthuso effaith eu gwaith ar safonau disgyblion yn gywir?
- Pan nad yw cymorth yn cael effaith ddigonol, pa mor drylwyr y mae arweinwyr yn herio arfer aneffeithiol?

Diolch eto am eich holl gymorth i gynllunio a threfnu ein hymweliad.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/bishop-gore-school-cy/

Yn gywir



**Catherine Evans**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol